5B 9 Millbank c/o Nobel House
17 Smith Square
London SW1P 3JR

Telephone 08459 335577
Email helpline@defra.gsi.gov.uk
Website www.defra.gov.uk

Department for Environment Food and Rural Affairs

At bawb ar y rhestr amgaeedig

1 Mawrth 2011

GWAREDU ASEDAU'R RESIDUARY MILK MARKETING BOARD

1. Rwy'n ysgrifennu i ofyn ichi am eich barn ar sut y dylem ni gael gwared ar asedau'r Residuary Milk Marketing Board (RMMB) sydd wedi bod yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol ers diddymu'r Bwrdd ar 31 Ionawr 2002.

2. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn ichi am eich barn ar yr opsiynau rydym yn eu cynnig a hefyd am syniadau eraill ar beth i'w wneud â'r asedau hyn.

3. Mae'r dogfennau canlynol i'w gweld yn:

http://ww2.defra.gov.uk/about/consultations/

- Y llythyr hwn at y rheini yr ymgynghorir â nhw
- Rhestr o'r rheini yr ymgynghorir â nhw

Cefndir

4. Sefydlwyd y Residuary Milk Marketing Board (RMMB) i ddelio â materion oedd heb eu datrys a chafodd ei ddiddymu ar 31 Ionawr 2002.

5. Ers ei ddiddymu, yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â Rheoliadau Bwrdd Marchnata Llaeth (Swyddogaethau Gweddilliol) (Diwygio) 2001 ("y Rheoliadau"), sydd wedi bod yn gyfrifol am yr asedau a drosglwyddwyd o'r RMMB er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau oedd yn weddill ac i dalu unrhyw daliadau dyledus i gynhyrchwyr llaeth o'r arian a oedd i'w ddosbarthu gan yr RMMB.

6. Yn ôl y Rheoliadau, roedd gofyn i'r asedau a drosglwyddwyd fod yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol am o leiaf blwyddyn cyn y câi benderfynu beth i'w wneud â nhw. Wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw, rhaid iddi ymgynghori ynghylch faint o gyfnod pellach y dylid cadw'r

asedau a phwy ddylai gael elwa ar yr asedau, os nad y cynhyrchwyr perthnasol. Bydd y rheini yr ymgynghorir â nhw (ceir rhestr ohonynt yn amgaeedig) yn bobl neu'n gyrff sydd yng ngolwg yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynrychioli buddiannau'r "cynhyrchwyr perthnasol". **Cynhyrchwyr perthnasol yw'r rheini a oedd adeg dosbarthu asedau'r RMMB am y tro olaf (rhwng 1996 a 2001) wedi'u cofrestru'n gynhyrchwyr cymwys h.y. wedi'u cofrestru gyda'r MMB fel cynhyrchwyr unrhyw bryd rhwng 1 Ebrill 1992 – 31 Mawrth 1993.**

7. Mae gennym £176,000 (heb gynnwys costau, gan gynnwys costau archwilio terfynol) i'w gwaredu. Bydd cyfrifon wedi'u harchwilio ar gael maes o law fydd yn dangos sut y gwnaethom drin yr arian o dan ein gofal.

Rydym yn gofyn ichi am eich barn ar bwy ddylai gael yr arian.

Gwaredu'r arian

8. Rydym wedi cadw'r arian am fwy na'r cyfnod perthnasol gofynnol (blwyddyn) ac yn yr amser hwnnw, rydym wedi gwneud y gorchwylion a oedd i'w gwneud. Rydym wedi cyflawni'r rhwymedigaethau oedd yn weddill ac rydym wedi talu'r arian dyledus i gynhyrchwyr llaeth o'r arian a oedd i'w ddosbarthu gan yr RMMB rhwng 1996 a 2001. Mae nifer o gynhyrchwyr eto i hawlio'r arian sy'n ddyledus iddynt, ond mae'r cyfnod ar gyfer gwneud hynny wedi mynd heibio. Ni welwn reswm felly dros gadw'r arian ymhellach a'n bwriad yw gwaredu'r arian cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu, ar ôl yr ymgynghoriad hwn ar bwy ddylai gael yr arian.

Hoffwn wybod a ydych yn anghytuno â'r trywydd hwn.

Buddiolwyr

9. Mae'r Rheoliadau'n diffinio'r buddiolwyr posibl. O gofio bod y cyfle i dalu cynhyrchwyr perthnasol wedi mynd heibio, yr opsiynau yw:-

- corff corfforaethol neu sefydliad arall sydd yng ngolwg yr Ysgrifennydd Gwladol wedi'i sefydlu at bwrpas:-

    i. sy'n gysylltiedig â chynhyrchu llaeth yng Nghymru a Lloegr; neu
    ii. sy'n fuddiol i'r cynhyrchwyr perthnasol neu bobl sy'n ymwneud â chynhyrchu llaeth yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn eich gwahodd i gynnig enwebiadau, a chyda phob un, gofynnwn am y canlynol:

- Enw a chyfeiriad;
- Manylion y rheini sy'n rhedeg y corff/sefydliad;
- Amcanion a gweithgareddau;
- Rhif y Comisiwn Elusennau, os yw'n berthnasol.

Os hoffech enwebu* sefydliad, esboniwch sut y mae'n bodloni'r amodau uchod, pam y byddai'n addas i gael yr arian, a'r prif fanteision posibl. (*gallai fod yn hunan-enwebiad).

Ymatebion

10. Anfonwch eich ymatebion at:

Milk Team
Area 5B, 9 Millbank
c/o Nobel House
17 Smith Square
London
SW1P 3JR
Ffôn: 020 7238 3110

Neu ebostiwch: dairy.consultation@defra.gsi.gov.uk

Dylai ymatebion gyrraedd erbyn **12 Ebrill 2011**

Amodau'r Ymgynghoriad

11. Cafodd yr ymgynghoriad hwn ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gynnal Ymgynghoriadau. Cewch gopi ohono oddi wrth yr Adran Fusnes, Arloesi a Sgiliau ar http://www.berr.gov.uk/whatwedo/bre/

12. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn trefnu bod yr ymatebion ar gael i'r cyhoedd eu gweld yng Nghanolfan Adnoddau Gwybodaeth Defra. Hefyd, gall y cyhoedd ofyn am gopi o'r ymatebion o dan y ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth.

13. Os nad ydych am i'r cyhoedd gael gweld eich ymateb – gan gynnwys eich enw, manylion cysylltu ac unrhyw wybodaeth bersonol arall, dywedwch hynny'n glir yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymatebion i'r ymgynghoriad. Cofiwch, os ydy'ch cyfrifiadur yn cynhyrchu ymwadiad yn awtomatig, nad yw'n cael ei gyfrif fel cais am gyfrinachedd.

14. Esboniwch pam eich bod am gadw'ch manylion yn gyfrinachol. Byddwn yn ystyried eich rhesymau os gwnaiff rhywun ofyn am yr wybodaeth o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth. Ond oherwydd y gyfraith, ni allwn addo y byddwn bob tro'n gallu cadw'r manylion hyn yn gyfrinachol.

15. Byddwn yn paratoi crynodeb o'r holl ymatebion ac yn ei roi ar ein gwefan yn: http://ww2.defra.gov.uk/about/consultations/

16. Bydd y crynodeb hwn yn cynnwys enwau'r cyrff fydd wedi ymateb ond nid enwau personol, cyfeiriadau na manylion cysylltu pobl.

17. Os hoffech gopi o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, cysylltwch â Chanolfan Adnoddau Gwybodaeth Defra. Gallwch ofyn amdano'n bersonol, dros y ffôn neu dros ebost:

Information Resources Centre
Lower Ground Floor
Ergon House

17 Smith Square
London SW1P 3JR

Ffôn: 020 7238 6575
Ebost: defra.library@defra.gsi.gov.uk

18. Mae'n bwysig cofio y dylai pobl sy'n galw'n bersonol roi o leiaf 24 awr o rybudd o'u gofynion i'r llyfrgell os medrant. Codir tâl gweinyddol am gostau ffotocopïo a phostio.

19. Os oes gennych sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori hon, yn hytrach na materion sy'n ymwneud â'r papur ymgynghori ei hun, anfonwch nhw at Drefnydd Ymgynghoriadau Defra (Defra's Consultation Co-ordinator), Area 7C Nobel House, 17 Smith Square, London SW1P 3JR, neu ebostiwch consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk.

Yn gywir

Sian Oliver-Gay
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig